Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach: y Cyfnod Nesaf o Wella Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Dyddiad:** **8 Rhagfyr 2009**

**Gan:** **Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

Heddiw, rwy'n cyhoeddi papur polisi sy'n amlinellu cam nesaf y broses o wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd gwasanaethau cyhoeddus yn wynebu her na fu erioed ei math. Wrth wraidd yr her honno yw'r angen i ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau gwell i bobl Cymru gyda'r un faint o adnoddau neu lai. Mae *Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach* yn nodi sut bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn ystod cyfnod nesaf ein rhaglen i wella gwasanaethau cyhoeddus, yn cydweithio â'r gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid cymdeithasol i drawsnewid effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus a hyrwyddo arloesedd.

Mae'r papur yn nodi saith maes ar gyfer gweithredu.

**1. Canolbwyntio'r sylw ar ganlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau** – trwy ganolbwyntio ein hadnoddau a'n hegni ar y camau gweithredu hynny a fydd yn gwneud gwahaniaeth, gan drefnu gwasanaethau cyhoeddus ar sail blaenoriaethau y mae cytundeb yn eu cylch er mwyn sicrhau canlyniadau gwell.

**2. Darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n fwy ymatebol i ddinasyddion** – trwy ddefnyddio llais a phrofiadau'r dinasyddion i hyrwyddo newid.

**3. Gweithredu mwy effeithlon** – trwy wella'r prosesau caffael a chomisiynu, ailwampio prosesau busnes, rheoli asedau ac eiddo, ac ymelwa ar botensial TGCh.

**4. Cydweithredu'n lleol ac yn rhanbarthol** – trwy ddatblygu swyddogaethau'r Byrddau Gwasanaethau Lleol, y consortia rhanbarthol a Grwpiau'r Cynllun Gofodol.

**5. Gwella perfformiad** – trwy symud y pwyslais o'r ddibyniaeth ar dargedau i ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

**6. Gwybodaeth a thystiolaeth well** – trwy wella arolwg *Byw yng Nghymru* a'i ddefnyddio, ar y cyd â dulliau eraill, i ganfod sut mae gwasanaethau yng Nghymru'n perfformio ac yn gwella.

**7. Cymell a galluogi gwelliannau ledled y gwasanaethau cyhoeddus** – trwy sefydlu Partneriaeth Effeithlonrwydd ac Arloesi, a datblygu Partneriaeth Gymdeithasol Cymru i fod yn gryfach.

I ddilyn *Canlyniadau Gwell ar gyfer Cyfnod Anoddach*, cynhelir Uwchgynhadledd Gwasanaethau Cyhoeddus ddechrau 2010 i roi hwb i gam nesaf y gweithredu gan bartneriaid a sefydliadau yng Nghymru.